# Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant Community Council

**Clerc: Mr Huw T. Jones, Henllys, Mallwyd, Machynlleth, Powys. SY20 9HS.**
**E bost: clerc.cyngor.llanfihangel.council@gmail.com Ffôn: 07974795778**

3ydd Chwefror 2025

Annwyl Gyfaill

CYNHELIR **CYFARFOD o GYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL Y PENNANT**
***Nos Lun y 10fed o Chwefror 2025 am 7.00pm yn y Ganolfan, Abergynolwyn.***

**Nodyn ar gyfer y cyhoedd.** Mae croeso i'r cyhoedd arsylwi ar gyfarfodydd y Cyngor fel arfer.
Croeso ichwi gysylltu os ydych eisiau gair

Edrychaf ymlaen i'ch gweld.

Yn Gywir,

Huw T Jones

**CLERC**

**…………………………………………………………………………………………**

## AGENDA

1.Gair o groeso a derbyn ymddiheuriadau. Gwahodd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.

2. Cyfle i dderbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda. (Bydd angen cysylltu gyda'r Clerc ymlaenllaw.)

3.Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gyfarfu ar y 13eg o Ionawr – gweler yn atodol.

4**. Materion yn codi,**

a) Materion Priffyrdd /llwybrau.

b) Rheilffordd Talyllyn /Safle treftadaeth a'r prosiect wagen lechi etc– ystyried y gohebiaeth diweddaraf.

c) Coeden yn difrodi wal (Abergynolwyn) – ystyried y diweddaraf. Hefyd coeden wedi cwympo ym mynwent Llanfihangel y Pennant.

d) Materion angen sylw yn y Cae Chwarae yn dilyn ymweliad y Cynghorwyr/adroddiad ROSPA -**ystyried amcangyfrifon**

e) Gwaith ym mynwent Y Fedw Abergynolwyn – nodi'r diweddaraf.

f) Llythyr Liz Saville Roberts AS - Newid i linellau ffon digidol, 'smart meters' a tlodi ynni/credyd pensiwn - danfonwyd allan i bob Cynghorydd 14.01.25.

g) Asedau y Cyngor

5**. Materion Cynllunio**

6.**Materion Cyllid.**

a) Cyfrifon 2023-24  -nodi'r diweddaraf.

b) Anfonebau;

- Cydnabyddiaeth flynyddol Cynghorwyr.

c) Ceisiadau am arian

- Yr Urdd – cais gan Bwyllgor Rhanbarth Meirionnydd – diweddariad ers y cyfarfod diwethaf yn dilyn cais am fantolen.

7. **Adroddiad Cyng Beth Lawton (Cyngor Gwynedd)**

8**.Adroddiad Cyng Elwyn Evans , Cynrychiolydd Un Llais Cymru.**

**9. Gohebiaeth.**

- Materion mynwent Llanfihangel y Pennant
- Dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru
- Gohebiaeth Sian Gwenllian AS, a'r ymgyrch i sefydlu Ysgol Ddeintyddol ym Mangor

10. **Unrhyw fater arall**